

Iechyd Da i Bawb

O'i ddechreuad anaddawol mewn beudy fis Mai diwethaf, mae micro-fragdy **Cwrw Llŷn** yn mynd o nerth i nerth. Mae cynhyrchiant wedi treblu ac erbyn hyn mae'r cwmni wedi symud i uned fwy yn Nefyn. Mae cynlluniau hefyd ar y gweill i greu Canolfan Dreftadaeth i adrodd stori bragu yng Nghymru, o'r Oes Efydd hyd heddiw.

Gweledigaeth grŵp o ddeuddeg ffrind a ddaeth at ei gilydd i ffurfio cwmni cydweithredol oedd Cwrw Llŷn. Y Prifardd Myrddin ap Dafydd yw un o'r deuddeg ac yn ei gartref ef yn Llwyndyrys y bragwyd y Cwrw Llŷn gyntaf. Meddai Myrddin: "Mae archeolegwyr wedi canfod mai ym Mhorth Neigwl yr oedd y bragdy hynaf yng Nghymru - tua 10 milltir o Lwyndyrys. Mae'n hanes difyr iawn o fragu cwrw yn yr ardal ac rydyn ni am adrodd yr hanes mewn canolfan dreftadaeth yr ydym yn gobeithio ei hadeiladu, ynghyd â micro-fragdy, odyn a chanolfan groeso newydd."



Ffermwyr yw tri aelod o'r cwmni cydweithredol, a phrofwyd ac aseswyd fod cnwd barlys un ohonynt yn berffaith ar gyfer cynhyrchu cwrw. Y gobaith yw y bydd hyn yn galluogi i'r grŵp fragu peint gwirioneddol leol. Mae'r ddau gwrw 'Brenin Enlli' a 'Seithennyn' eisoes yn boblogaidd yn nhafarndai a gwestai'r ardal; ac o'r herwydd mae'r galw yn cynyddu am y cwrw rhagorol.

Cafodd Cwrw Llŷn, a enillodd gategori Grŵp y Flwyddyn yn ddiweddar yng Ngwobrau Blas a Dawn Gwynedd 2011, gyllid i ddatblygu eu micro-fragdy yn Nefyn drwy Gynllun Cynnyrch Lleol 'Llwyddo yng Ngwynedd' y Cynllun Datblygu Gwledig, a gydlynir gan Gyngor Gwynedd ar ran Partneriaeth Economaidd Gwynedd. Cawsant gymorth hefyd gan Cywain, prosiect arall a ariennir drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig, a sefydlwyd i godi gwerth cynhyrchion amaethyddol.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i:

www.cynnyrchgwynedd.co.uk

neu cysylltwch â **Mirain Gwyn** ar **01766 514057**

Lansiad Dydd Gŵyl Ddewi



Roedd achos arall dros ddatllu ar Ddydd Gŵyl Ddewi, ddydd lau, Mawrth 1af. Roedd yn achlysur lansiad swyddogol prosiect **Elevate Cymru**, sef rhwydwaith o raglenni newydd a chyffrous seiliedig ar waith yng Ngogledd Cymru. Y bwriad yw cyflwyno gwelliannau mesuradwy i fusnesau micro, busnesau bychain neu ganolig drwy ddarparu hyfforddiant sy'n gwbl ddi-dâl.

Roedd Ieuan Wyn Jones AC, Llywodraeth Cymru, wrth law i agor yr achlysur a chafwyd sgwrs llawn ysbrydoliaeth gan y siaradwraig wadd, Sarah Ellwood, Rheolwr Gyfarwyddwr Supertemps. Mae Sarah yn credu'n angerddol mewn mentrau sy'n rhoi grym i weithwyr ddatblygu sgiliau seiliedig ar waith.

Yn ystod lansio'r digwyddiad yn Neuadd JP, Prifysgol Bangor, cafwyd gweithdai ar nifer o bynciau yn cynnwys:

- Marchnata Gweledol: Y ffordd fwyaf effeithiol o gynyddu gwerthiant
- Y Rheolwr Modern: Cael mwy o'ch gweithlu
- Creadigrwydd, Diwylliant a Newid: Sgiliau hanfodol i ddatblygu eich cwmni
- Pecyn cymorth TG: Y peiriant sy'n gyrru'r busnes llwyddiannus

Mae Elevate Cymru yn rhan o raglen Ddysgu Seiliedig ar Waith, sy'n cael ei hariannu gan Raglen Gydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae'n cynnig amrywiaeth gynhwysfawr o gyrsiau achrededig sydd wedi eu hanelu at wella sgiliau gweithwyr. Cyflwynir y rhain drwy bedwar rhwydwaith dan arweiniad pedair Prifysgol a byddant yn cwmpasu ardaloedd cydgyfeiriol Cymru.

I gael mwy o wybodaeth ewch i www.elevatecymru.co.uk

“10 ceiniog am gant o benwaig”

Mae Sue Walton, golygydd a darllenwraig proflenni o Benrhyndeudraeth, wedi derbyn comisiwn difyr ac anarferol. Gofynnwyd iddi drawsysgrifio cyfrol gyntaf o ddyddiaduron a ysgrifennwyd â llaw yn yr 18fed ganrif gan William Bulkeley, ffermwr a gŵr bonheddig o Sir Fôn.

Roedd William Bulkeley yn byw ym Mrynddu, Llanfechell, ac mae ei ddyddiaduron yn cwmpasu'r cyfnodau o 1734–43 a 1747–60. Cânt eu cadw yn adran archifau Prifysgol Bangor a thynnwyd llun o bob un o'r tudalennau. Mae'r dyddiaduron yn orlawn o wybodaeth am y tywydd, ffermio a bywyd gwylt, sy'n eu gwneud yn adnodd gwerthfawr i naturiaethwyr a gwyddonwyr, yn arbennig o ystyried y pryderon cyfredol am newid hinsawdd. Comisiynwyd y gwaith gan Gymdeithas Edward Llwyd, cymdeithas a sefydlwyd i anrhydeddu'r naturiaethwr a'r hynafiaethydd mawr o Gymro, a bydd yn trefnu fod yr arsylwadau amgylcheddol ar gael ar ei gwefan, Llên Natur (www.llennatur.com).

Meddai Sue: “Mae Bulkeley yn cyfeirio at sawl agwedd ar ei fywyd a'i gymuned. Mae llawer o'r hyn a brynodd yn hynod o ddiddorol: er enghraifft, ar 17 Medi 1751 prynodd 100 o benwaig am 10 geiniog (tua 4c yn arian heddiw). Hyd yn oed ar ôl trosi'r swm i werth arian heddiw nid yw ond tua £3.60!”

Mae cwmni Sue, sef **Sue Proof** yn darparu gwasanaeth golygu, prawf ddarllen a chyfieithu, ac meddai Duncan Brown, o Gymdeithas Edward Llwyd: “Roedd Sue Proof yn cyflwyno cynnig cadarn a phroffesiynol iawn mewn cystadleuaeth galed.”

Cafwyd cyllid i ymgymryd â'r gwaith o drawsysgrifio'r gyfrol gyntaf o Gronfa Datblygu Cynladwy Cyngor Sir Ynys Môn, Prifysgol Bangor, a chan Gymdeithas Edward Llwyd.

Cysylltwch â: **Sue Proof** ar **01766 771 502**
www.sueproof.co.uk



Anelu am Lwyddiant

Enillodd **Boatshed North Wales**, y cwmni broceriaid llongau hwylio ail-law yng Nghanolfan Fôr Pwllheli, wobwr glodfawr 'Boatshed Broker of the Year' mewn seremoni yng nghanolfan Excel Llundain ym mis Ionawr 2012. Mae'r anrhydedd hon yn cydnabod cynnydd mewn gwerthiant, gwasanaeth cwsmeriaid neilltuol, datblygiad a thwf busnes, a chysylltiadau busnes rhagorol yn y gymuned leol.



Tim Boatshed North Wales yn derbyn eu gwobr, o'r chwith i'r dde: Mandy Chapman, cyd-sylfaenydd Boatshed.com; Mandy Wood, Andy Wood, Andrew Topham a Caroline Topham, perchnogion Boatshed North Wales.

Meddai Andrew Topham, perchennog Boatshed North Wales: “Rydym yn hapus dros ben o dderbyn y wobwr hon. Er gwaetha'r hinsawdd economaidd arw rydym wedi gwerthu mwy na chant o gychod yn ystod y naw mis diwethaf, i gleientiaid o bob rhan o'r DU ac Ewrop. Mae gennym dîm profiadol iawn, sy'n gweithio ym mhob marina yng Ngogledd Cymru, ac maen nhw'n gweithio'n hynod o galed. Mae pob un o'r cychod sydd gennym ar werth wedi eu harchwilio a'u priso gan un o'n broceriaid ac rydym yn tynnu hyd at 80 ffotograff o bob iot. Ar ein gwefan ceir set gynhwysfawr o fanylion a lluniau er mwyn i'r sawl sy'n prynu gael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt.

“Mae Hafan Pwllheli yn lle ffantastig i werthu cychod hwylio ac mae'r cyfleusterau yn rhagorol. Gobeithiaf y bydd cymhellion diweddar i berchnogion angorfeydd ac ymrwymiad i garthu'r Marina yn annog mwy o bobl i gadw eu cychod yma.”

Mae Boatshed North Wales yn rhan o Boatshed.com, y grŵp mwyaf o froceriaid cychod hwyliu rhyngwladol. Mae gan y grŵp 54 swyddfa annibynnol ledled y DU ac ym mhob rhan o'r byd, a mwy na 450,000 o danysgrifwyr cofrestredig. Yn 2011 gwerthodd fwy na gwerth £28 miliwn o gychod hwylio. Mae Boatshed North Wales, sy'n perthyn i Ffederasiwn Morol Prydain, yn gweithredu yn unol â'i godau a'i arferion ac wedi ymrwymo i fodloni cwsmeriaid.

Cysylltwch â: **01758 701595**
neu ewch i: <http://northwales.boatshed.com>

Rheoli Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn y Gweithle

Chwarae Teg, a sefydlwyd bron i ugain mlynedd yn ôl, yw prif asiantaeth broffesiynol datblygiad economaidd merched yng Nghymru. Nawr mae'r sefydliad yn helpu mentrau bychain a chanolig yng Ngogledd Cymru i reoli amrywiaeth i gael llwyddiant ym maes busnes. Drwy'r rhaglen Evolve mae Chwarae Teg yn cynnig cyngor a chymorth ymarferol sy'n hyrwyddo effeithiolrwydd strategaeth amrywiaeth yn y gweithle. Mae'r rhaglen yn cychwyn â gweithdy di-dâl sy'n egluro effaith Deddf Cydraddoldeb 2010 ar fusnesau. Mae manteision gwaith hyblyg a gweithio o bell yn cael eu hegluro ac, yn dilyn y gweithdy, bydd cyflogwyr yn gallu cael mynediad i amrediad o ddulliau cefnogi a fydd wedi eu teilwrio'n benodol ar gyfer eu busnesau.

Meddai Susie Ventris-Field, Uwch Swyddog Prosiect: "Hyd yma, rydym wedi gweithio gyda mwy na 30 o fusnesau yng Ngogledd Cymru, yn cynnwys Outlook Expeditions ym Mharc Menai ac Anheddau Cyf ym Mangor. Rydym yn cwmpasu amrywiaeth o bynciau sy'n gysylltiedig ag amrywiaeth, yn cynnwys datblygu hyfforddiant cydraddoldeb mewnol a sefydlu cyfleusterau gweithio o bell."

Dim ond gair da sydd gan Anheddau Cyf (y darparwr gofal cymdeithasol dielw) i'w ddweud am Chwarae Teg. Meddai prif weithredwr Anheddau, Janetta Toleman Jones: "Mae'r sefydliad cyfan yn gwbl gyfarwydd â phob agwedd o'r prosiect. Mae'n dda gweld brwdfrydedd y cyfranogwyr a'r ffordd y maen nhw'n dod â hyn yn ôl i'r gweithle."

Mae'r rhaglen Evolve yn rhan o brosiect gwerth £12.5m Agile Nation Cronfa Gymdeithasol Ewrop a Llywodraeth Cymru sydd wedi ei anelu at fusnesau yn ardaloedd cydgyfeiriol Cymru.

Er mwyn trefnu lle mewn gweithdai ar 15fed Mai neu 25ain Gorffennaf, cysylltwch â **01492 514237** neu **susie@chwaraeteg.com**.



Mae staff Outlook Expeditions yn mwynhau manteision gweithio o bell.

Twf Ewropeaidd i Gwmni Lleol



Mae cwmni **CCI** o Borthmadog wedi cyhoeddi eu bod yn agor swyddfa dramor newydd yn Faro, Portiwgal. Mae'r cwmni, a sefydlwyd fwy na 25 mlynedd yn ôl, yn arbenigo mewn darparu gwasanaethau adfer dyledion i'r sectorau cyhoeddus a phreifat.

Meddai Carl Hackman, y Cyfarwyddwr: "Rydym yn falch iawn o gyhoeddi datblygiad pellach ac yn bwriadu cynnig gwasanaeth proffesiynol, cyflym ac effeithiol. Rydym wedi buddsoddi'n sylweddol, o ran pobl ac isadeiledd gweithredol, i sicrhau fod y safonau uchaf yn cael eu cynnal."

Mae CCI wedi gweithio gyda llawer o sefydliadau i helpu cleientiaid i gefnogi eu prosesau adfer cyfredol. Nod y swyddfa newydd, sydd â rheolaeth lawn ar y sefyllfa ddyled neu sy'n gallu cynorthwyo i gefnogi strwythur cyfredol, yw cynnig cefnogaeth debyg i'r un a geir yn y DU, gan sicrhau fod cymarebau casglu dyledion yn cynyddu a bod y cwsmer yn cael blaenoriaeth bob amser. Ar hyn o bryd cyflogir 51 o weithwyr yn y brif swyddfa ym Mhorthmadog ac mae'r cwmni yn rhan o rwydwaith GCS gyda mwy na 90 o bartneriaid yn rhyngwladol.

www.ccilegal.co.uk

Cinio Gala RhBG

Gofalwch eich bod yn rhydd ar Ddydd Iau, 17eg Mai. Dyma noson **Cinio Gala Wythnos Fusnes Gwynedd**, a gynhelir eleni yn y Ganolfan Rheolaeth, Bangor. Bydd rhagor o fanylion yn cael eu dosbarthu cyn yr achlysur.

Menter Newydd yn Bwriadu Trechu Dirwasgiad drwy Hyrwyddo Cynhyrchion Eryri

Mae menter newydd a gwahanol wedi ei lansio yn Nolgellau gan dair merch fusnes lleol. Mae 'grug' wedi ymrwmo i roi safle blaenllaw i grefftau a wneir yn Eryri yn y mudiad dylunio 'Gwnaed ym Mhrydain'. Mae'r fenter yn cynnwys stiwdio adwerthu, siop ar-lein, gweithdai a stondin farchnad. Y nod yw arddangos cynhyrchion gwreiddiol o safon uchel a chyfoes ac mae 16 o grefftwyr mwyaf talentog yr ardal eisoes wedi ymuno â'r fenter. Mae'r rhain yn cynnwys gwneuthurwyr bagiau a gemwaith, basgedi, tecstilau, cerameg a chelfyddyd llechi. Yn eu plith hefyd ceir crefftwyr gwaith coed a dodrefn, siocledi a chynhyrchion aromatherapi, tedi-bêrs y gellir eu casglu a chardiau cyfarch wedi eu personoli.



Aeth y partneriaid sefydlol Jenifer Brenner, Helen Sutcliffe a Debra Harris ati i ddechrau i gynllunio'r fenter yn ystod haf 2011 ac ers hynny cawsant eu llethu gan yr ymateb gan wneuthurwyr a chwsmeriaid fel ei gilydd. Meddai Helen, sydd yn grefftwraig leol ei hun: "Mae pob un ohonom yn rhannu'r un brwdfrydedd tuag at y crefftau rhyfeddol sy'n cael eu creu gan y bobl anhygoel o dalentog sy'n byw yn yr ardal hon ac roeddem ni eisiau creu peirianwaith a fyddai'n helpu i hyrwyddo eu gwaith yn fwy eang. Mae gan Debra a Jen gefndir marchnata dibynadwy felly roeddem ni eisiau cyfuno fy mhrofiad i â'u gwybodaeth hwy am adwerthu a marchnata i roi hwb cychwynnol cadarn i wneuthurwyr lleol."

Ychwanegodd Jenifer: "Gall rhai sy'n ymweld â 'grug' gyfarfod cynhyrchwyr, prynu llyfrau cysylltiedig â chrefftau a dod i arddangosiadau, gweithdai, clybiau crefftau a digwyddiadau arbennig eraill."

Trwy weithio ar y cyd, mae'r gwneuthurwyr yn bwriadu rhannu'r dyletswyddau cadw siop a phrosesu archebion er mwyn sicrhau rhent fforddiadwy a chadw prisiau o fewn cyrraedd y farchnad leol.

Meddai Debra: "Er ein bod yn gobeithio dod yn gyrchfan i ymwelwyr sy'n dod i Eryri a thargedu marchnadoedd rhyngwladol drwy ein busnes ar-lein, y pwrpas sylfaenol yw cefnogi'r economi leol drwy greu cyfleoedd masnachol i'r busnesau bychain hyn."

Dylai unrhyw un sydd â diddordeb mewn dod yn aelod o 'grug' gysylltu â Helen, Jenifer neu Debra ar **01341 421719** neu e-bostio info@grugstudio.com

Cyfleusterau Newydd yn yr Arfaeth yn y Gelli Gyffwrdd

Mae clywed eu bod yn cael grant o £88,000 gan Visit Wales yn newyddion da i **Barc y Gelli Gyffwrdd** y Gwanwyn hwn. Bydd y grant yn caniatáu i'r safle arddangos presennol yn y Neuadd Fawr gael ei ailddatblygu yn ystafell chwarae dan do, a fydd yn ôl y cynllun, yn agor ym mis Mehefin. Mae cynlluniau yn cael eu llunio ar hyn o bryd i hwylyso'r gwaith uwchraddio hwn a fydd hefyd yn cynnwys caffi newydd a safle gwerthu cysylltiedig a fydd yn agor erbyn gwyliau'r Pasg.

Ac nid dyma'r unig newyddion da i'r atyniad arobryn, a sefydlwyd ym 1993. Mae perchnogion y Gelli Gyffwrdd, Stephen ac Andrea Bristow yn falch tu hwnt o ennill gwobr Cymru Wledig gan yr Ymgyrch er Diogelu Cymru Wledig. Meddai Stephen: "Mae'n anrhydedd mawr derbyn y wobwr hon. Rydym bob amser wedi ceisio cyfuno diwrnod allan difyr a hwyliog a rheolaeth ofalus o'r amgylchedd. Mae gwaith caled a brwdfrydedd y staff wedi gwneud hyn yn bosibl."

Mae'r wobwr, a fydd yn cael ei chyflwyno ym mis Mehefin, yn cydnabod yr effaith bositif a gafodd y Gelli Gyffwrdd ar gefn gwlad, y gymuned ac ar yr economi leol.

www.greenwoodforestpark.co.uk



Cydnabyddiaeth Olympaidd i Brosiect Beicio

Mae prosiect yn Nolgellau wedi datblygu cyfres o lwybrau beicio mynydd i feicwyr anabl ac wedi llwyddo i ennill gwobr 'Inspire Mark' Gêmau Olympaidd Llundain 2012. Mae'r 'Momentum Rides' yn rhan o 'Heriwch eich Ffiniau', sef menter gymuned-seiliedig yng nghanolfan llwybrau beiciau mynydd Coed y Brenin.

Discover Dolgellau a gychwynnodd y prosiect 'Heriwch eich Ffiniau' yn niwedd Hydref 2011. Mae'n darparu offer, hyfforddiant ac arweinydd, gyda'r bwriad o ganiatáu i feicwyr anabl wneud teithiau sydd o leiaf yn lled-annibynnol. Mae defnyddio'r llwybrau yn ddi-dâl i feicwyr sy'n dod â'u hoffer eu hunain, fel arall mae'n bosibl llogi beiciau mynydd addasol 'Heriwch eich Ffiniau' (aMTBs). Bydd cyfranogwyr yn gorfod dilyn proses achrediad cyn gallu mynd â beiciau allan ar eu pen eu hunain. Mae trefnu lle ymlaen llaw yn hanfodol; a chan fod lleoedd yn gyfyngedig gofynnir am ffi archebu a fydd yn cael ei had-dalu ar y diwrnod.

Mae rhaglen London 2012 Inspire yn cydnabod prosiectau arloesol ac eithriadol a ysbrydolir yn uniongyrchol gan Gêmau Olympaidd a Pharalympaidd 2012. Meddai Seb Coe, Cadeirydd Pwyllgor Trefnu Gêmau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain: "Mae Momentum Rides 2012 'Heriwch eich Ffiniau' yn annog beicwyr anabl i gyflawni eu potensial. Mae'n dda gen i ddweud, ein bod, gyda chymorth partneriaid fel Discover Dolgellau, yn gwireddu ein gweledigaeth i ddefnyddio grym y Gêmau Olympaidd a'r Gêmau Paralympaidd i hybu cyfranogiad mewn beicio mynydd addasol."

Mae prosiect 'Heriwch eich Ffiniau' yn bartneriaeth gyda Pharc Cenedlaethol Eryri, Chwaraeon Cymru, Chwaraeon Anabledd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru.

Bydd digwyddiadau a gynhelir yn fuan yn cael eu postio ar:
www.facebook.com/challengeyourboundaries



Cynnig Arbennig iawn i Aelodau



Yn union ar ôl derbyn Gwobr Pum Seren Aur gan Visit Wales, mae gan **Dŷ Gwledig Plas Dinas** hyd yn oed fwy o newyddion da i'w rannu, sef cynnig neilltuedig i Aelodau RhBG. Mae "Pecyn Corfforaethol Arbennig" yn cynnwys Cinio, Gwely a Brecwast, ynghyd â gwin a hynny am bris sydd hefyd yn arbennig, sef £125.00 yn unig y noson. Bydd y cynnig yn caniatáu i aelodau fwynhau pryd bwyd, dau gwrs sylweddol, a dau wydraid o win, ac yna aros noson mewn Ystafell Foethus, gyda brecwast blasus fore trannoeth.

Mae rheswm arall dros ddathlu yn y Plas: mae'r gwesty newydd gael ei gynnwys yn y Good Hotel Guide 2012. Meddai'r cyd-westeiwr Andy Banner-Price: "Rydym ni wedi bod ar "restr fer" y Llawlyfr am y 4 blynedd ddiwethaf gan fod y Golygyddion yn disgwyl nes derbyn digon o adolygiadau annibynnol gan eu darllenwyr cyn eich trosglwyddo i brif ran y llyfr. Diolch i bawb a ysgrifennodd adolygiad inni."

Dyfernir y Wobr Aur gan Visit Wales i'r lleoedd tra arbennig hynny sy'n cynnig "safon neilltuol, cyffordduswydd a lletygarwch eithriadol". Mae hyn yn gosod Plas Dinas ymysg y 5% gorau o'r holl ddarparwyr llety yng Nghymru. Mae'r Gwesty wedi ei leoli yn Y Bontnewydd, yn union y tu allan i Gaernarfon ac ar un adeg roedd yn gartref i'r teulu Armstrong-Jones.

Amodau Archebu: Dyfynnwch "Gwynedd Business Network". Rhaid trefnu llety o leiaf 7 niwrnod ymlaen llaw ac mae archebion yn amodol ar gyfnod canslo o 48 awr. Mae prydau bwyd ar gael o ddydd Mawrth – dydd Sadwrn ac ni ellir defnyddio'r cynnig ar y cyd ag unrhyw gynigion eraill. Mae'r cynnig yn ddibynnol ar y ffaith fod lleoedd ar gael a gellir ei newid neu ei ddileu ar unrhyw adeg.

Ffôn: **01286 830214** E-bost: info@plasdinas.co.uk Rhyngrwyd: www.plasdinas.co.uk



Yn gryno

Cwmni o Dde Cymru yn Agor Swyddfa Newydd ym Mangor

Mae'r arbenigwyr effeithlonrwydd busnes **Principality Consulting Limited** wedi penodi David Lloyd Williams o Fangor i helpu'r cwmni o Lyn Ebwy i weithredu cytundebau cyfredol yng Ngwynedd a datblygu busnes newydd ar draws Gogledd Cymru. Mae cefndir David, sy'n Beiriannydd Siartredig a Gweithiwr Proffesiynol TG Siartredig, yn cwmpasu'r diwydiannau cynhyrchu, meddalwedd a gweinyddol.



Bu'n gweithio yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, gan ddringo o gwmnïau bychain hyd at gwmnïau mawr rhyngwladol. Meddai Martin Seymour, rheolwr gyfarwyddwr Principality Consulting: "Mae profiad David mewn gwella busnes a phrosiectau effeithiolrwydd yn ogystal â thechnoleg yn benodiad allweddol i Principality wrth inni fwrw ymlaen â'n cynlluniau datblygu. Bydd cwmnïau yn gallu cael gafael ar y lefel uchel hon o arbenigedd dan raglen E-fusnes Llywodraeth Cymru."

Bydd busnesau cymwys yn derbyn diagnostig TGCh cychwynnol a ariennir gan grant lawn, gyda'r posibilrwydd o fwy o ymgynghoriaeth gyda chymhorthdal sylweddol i gynorthwyo i weithredu camau gwella busnes. Ewch i www.PrincipalityConsulting.com i gael rhagor o wybodaeth.

Hyrwyddiad Newydd ar y We i Fusnesau Gwynedd

Mae gwefan newydd wedi ei sefydlu i roi'r cyfle i fusnesau yng Ngwynedd hyrwyddo eu cyfleusterau a'u gwasanaethau. Cynlluniwyd **Gwynedd Lleol** er mwyn arddangos ansawdd ac amrywiaeth busnesau yn y sir.



Meddai Gavin Wyn Roberts, a feddyliodd gyntaf am Gwynedd Lleol: "I helpu busnesau i gael y mymryn bach mwy o bresenoldeb ar y we, rwyf wedi cynnwys dau opsiwn ar gyfer cofnodion: pecyn sylfaenol a phecyn premiwm. Er mwyn arddangos ein hymrwymiad i'r ardal, byddwn yn rhoi 10% o'r costau hysbysebu i elusennau lleol."

I gael rhagor o wybodaeth ewch i: www.gwynedd-local.com

Y Dyfodol – Ar ôl Blwyddyn

Mae blwyddyn gyntaf **Y Dyfodol** newydd ddod i ben. Cynllun tair blynedd gwerth £7.5m yw hwn i helpu mwy na 5,000 o weithwyr yng Ngogledd Cymru i ennill sgiliau newydd ac mae'n cynnig dadansoddiad anghenion hyfforddi yn ogystal â hyfforddiant sector benodol a datblygiad i staff.

Hyd yma, mae mwy na 900 o weithwyr o fwy na 500 o gwmnïau wedi cychwyn ar eu hyfforddiant. Un o'r cwmnïau hyn yw Crossroads Supporting People Ltd, Dolgellau, Cartref Gofal preswyl sy'n rhoi gofal personol i oedolion ag anawsterau dysgu. Mae staff wedi cwblhau cyrsiau sy'n cynnwys Diogelwch Bwyd, Diogelwch Tân, Cymorth Cyntaf Brys a Rheoli Diogelwch (IOSH).

Meddai Mark Wiseman, Rheolwr Crossroads: "Mae'r cymorth a gafwyd dan y cynllun wedi bod yn ffantastig. Cynorthwydd Y Dyfodol ni drwy gynnig hyfforddiant fforddiadwy a hygyrch."

Mae Y Dyfodol, sy'n cael ei arwain gan Goleg Llandrillo Cymru, yn gynllun partneriaeth gyda Choleg Menai, Coleg Glannau Dyfrdwy a Choleg Harlech.

www.dyfodol.co.uk

Unrhyw Sylwadau

Gobeithiwn eich bod wedi mwynhau ein Cylchlythyr Rhwydwaith Busnes Gwynedd diweddaraf. Byddem yn gwerthfawrogi eich cyfraniadau. Os oes gennych unrhyw sylwadau, neu syniadau ar sut y gallem wella, yna gadewch inni wybod. E-bostiwch y golygydd Jacquie Knowles ar:

Jacquie.Knowles@btconnect.com

Er mwyn ymuno neu i ddarganfod mwy am y Rhwydwaith ewch i: www.gwyneddbusnes.net



© 2012 Rhwydwaith Busnes Gwynedd
Ysgrifennwyd a golygydd gan : Jacquie Knowles
Dylunwyd gan : mwncibach.com
Sylwr na ellir dal y cyhoeddwr yn gyfrifol
am unrhyw wallau neu hepgorau yn y testun.